


Adroddiad Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion y DU 2012-2024



**AMGUEDDFA
CYMRU**

Edina
Trust

Bulb Project



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

MYNEGAI

Cliciwch yr adran yr ydych am ei gweld, neu sgroliwch i ddarllen yn y drefn isod.

Data Tywydd Cyfartalog y DU yn 2024

- Tymheredd y DU 2024
- Heulwen y DU 2024
- Glawiad y DU 2024


Data Tywydd y DU 2012-2024

- Tymheredd y DU 2012-2024
- Heulwen y DU 2012-2024
- Glawiad y DU 2012-2024

Data Blodau'r DU

- Data Blodau'r DU 2024
- Data Blodau'r DU 2012-2024
- Data Blodau Cennin Pedr y DU 2012-2024
- Data Blodau Crocws y DU 2012-2024

Adnoddau Pellach





Crynodeb 2012-2024

- Mae'r crynodeb canlynol yn edrych ar batrymau allweddol a thueddiadau a amlygir gan y data a gofnodwyd gan ysgolion.
- Mae cofnodion tywydd yn cael eu cadw rhwng Tachwedd a Mawrth bob blwyddyn, sy'n golygu bod cofnodion pob blwyddyn yn cynnwys data o fis Tachwedd a Rhagfyr y flwyddyn flaenorol. Er enghraifft, pan fydd yr adroddiad yn sôn am ganlyniadau 2012, mae'n cyfeirio at ddata a gofnodwyd rhwng Tachwedd 2011 a Mawrth 2012.
- Gallwch chi lawrlwytho'r canlyniadau i'w hastudio o:
<https://amgueddfa.cymru/bylbiau-gwanwyn/>




Pa wlad oedd y cynhesaf / oeraf?




Mae'r siart bar yn dangos y tymhereddau cyfartalog ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon rhwng Tachwedd 2023 a Mawrth 2024. Gallwn weld mai Lloegr oedd â'r tymheredd cyfartalog uchaf o 6.8°C. Yr Alban oedd â'r tymheredd cyfartalog isaf o 3.9°C.

Pa wlad oedd â'r mwyaf/lleiaf o oriau o haul?



Mae'r siart bar yn dangos yr oriau cyfartalog o olau haul rhwng Tachwedd 2023 a Mawrth 2024 ar gyfer Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cafodd Lloegr y mwyaf o oriau haul gyda chyfartaledd o 64.4 awr. Cymru gafodd y lleiaf o oriau haul gyda chyfartaledd o 51.8 awr.

Ym mha wlad oedd y glaw mwyaf / lleiaf?




Mae'r siart bar hwn yn dangos y glawiad cyfartalog rhwng Tachwedd 2023 a Mawrth 2024 ar gyfer Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gallwn weld o'r graff taw Cymru oedd y wlad wlypaf, gyda glawiad cyfartalog o 191.7mm. Gogledd Iwerddon oedd y wlad sychaf gyda glawiad cyfartalog o 112.3mm.

Rydyn ni wedi edrych yn ofalus ar gofnodion tymheredd, haul a glawiad cyfartalog eleni a chymharu'r canlyniadau o Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gallwn ni weld sut maen nhw'n cymharu â chanlyniadau'r gorffennol! Yw'r tywydd eleni wedi bod yn gynhesach neu'n oerach? Gawson ni fwy neu lai o haul? Oedd hi'n fwy gwlyb neu'n fwy sych?


Dyma'r atebion...

Tymheredd cyfartalog misol rhwng Tachwedd a Mawrth o 2012 i 2024




Mae'r siart yn dangos cafodd 2024 y tymheredd uchaf ym mis Chwefror o'r holl broject. Mae'r Swyddfa Dywydd wedi nodi taw Chwefror 2024 oedd yr ail cynhesaf a gofnodwyd ar gyfer y DU (mewn cyfres sy'n dyddio'n ôl i 1884).

Tymheredd cyfartalog rhwng Tachwedd a Mawrth o 2012 i 2024




Y tymheredd cyfartalog ar gyfer y cyfnod hwn yw 5.3°C . Gallwn weld o'r siart welodd 2024 dymheredd uwch na hyn, hefo cyfartalog o 5.8°C . Mae yna 2.44°C rhwng y blynyddoedd cynhesaf (2012) a oeraf (2013).

Oriau cyfartalog o olau haul rhwng Tachwedd a Mawrth o 2012 i 2024




Mae'r siart yn dangos cafodd 2024 oriau o haul is na'r cyfartaledd yn pob mis heblaw Ionawr, pryd oedd tymereddau'r pedwerydd cynhesaf o'r project! Tybed beth fydd hyn yn ei olygu i'n bylbiau!

Oriau cyfartalog o olau haul rhwng Tachwedd a Mawrth o 2012 i 2024




Gwelodd 2024 yr oriau o haul isaf am y project. Gwelwyd 2012 yr oriau o haul uchaf am yr un cyfnod. Tybed, a fydd ein bylbiau'n blodeuo'n gynharach neu'n hwyrach eleni? Mae yna 25 o oriau rhwng y flwyddyn a welodd yr oriau o olau haul cyfartalog mwyaf (2012) a'r flwyddyn welodd yr oriau o olau haul isaf (2024).

Glawiad cyfartalog rhwng Tachwedd a Mawrth o 2012 i 2024



Gallwn weld o'r siart gwelodd 2024 glawiad uwch na'r cyfartalog am ein cyfnod. Mae'r Swyddfa Dywydd wedi nodi glawiad dyddiol uchaf erioed ar gyfer rhai o'u gorsafoedd tywydd dros yr amser hwn. Hefyd, gwelwyd wyth storm oedd yn ddigon difrifol i gael eu henwi!

Glawiad cyfartalog rhwng Tachwedd a Mawrth o 2012 i 2024




Gallwn ni weld o'r siart taw 2024 oedd y flwyddyn trydydd wlypaf ers dechrau'r project, gyda glawiad cyfartalog o 135mm. 2016 oedd blwyddyn wlypaf y project, gyda glawiad cyfartalog o 158mm.

Bydd y planhigion
yn blodeuo yn
gynt mewn
ardaloedd sy'n
gynnes ac yn
heulog.



Lloegr oedd y wlad gynhesaf gyda'r nifer fwyaf o oriau o haul. Yr Alban oedd y wlad oeraf a Gogledd Iwerddon oedd y wlad sychaf. Chymru oedd y wlad wlypaf hefo'r mwyaf o law a'r gyda'r oriau isaf o haul. Beth mae hyn yn ei olygu i'n canlyniadau?

Agorodd blodau'n hwyrach yn Yr Alban eleni!




Mae ein canlyniadau'n dangos bod y dyddiadau blodeuo cyfartalog cyfunol ar gyfer crocws a chennin Pedr yr un peth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon! Blodeuodd planhigion yn hwyrach yn yr Alban. Mae'n debyg bod hyn oherwydd welodd Yr Alban y tymheredd cyfartalog isaf.

Tabl o Ganlyniadau DU 2012-2024

Blwyddyn / Year	Dyddiad blodeuo'r crocws / Crocus flowering date	Dyddiad blodeuo'r cenin Pedr / Daffodil flowering date	Tymheredd / Temp (°C)	Glawiad cymedrig / Average rainfall (mm)	Oriau o haul / Hours of sunshine
2024	08/03/2023	06/03/2024	5.8	135	61.1
2023	11/03/2023	23/03/2023	5.4	117	63.8
2022	05/03/2022	12/03/2022	5.86	90	77.72
2021	07/03/2021	08/03/2021	4.9	117	61.9
2020	03/03/2020	01/03/2020	5.3	133	69.4
2019	22/02/2019	01/03/2019	5.92	102	72.94
2018	11/03/2018	25/03/2018	4.04	106	69.1
2017	08/03/2017	11/03/2017	5.46	92	70.24
2016	15/03/2016	21/03/2016	5.96	158	61.42
2015	07/03/2015	16/03/2015	4.94	116.9	73.9
2014	05/03/2014	12/03/2014	5.58	141	72.4
2013	25/03/2013	02/04/2013	3.6	109	63.7
2012	05/03/2012	09/03/2012	6	93	86.48
Average	8th March	14th March	5.2	114.58	70.25

Gwelodd 2024 dyddiadau blodeuo cyfartalog ar gyfer y crocws a cynharach na'r cyfartaledd ar gyfer y cennin Pedr. Hwn oedd y dyddiad blodeuo trydydd cynharaf i'r cennin Pedr. Mae'n ddiddorol i nodi hwn oedd ond yr ail flwyddyn i weld y crocws blodeuo yn hwyrach na chennin Pedr!



Mae'r siart far hon yn dangos y dyddiad blodeuo cyfartalog ar gyfer y blynyddoedd 2012 i 2024. Y dyddiad blodeuo cyfartalog ar gyfer y crocws a chennin Pedr gyda'i gilydd ym 2024 yw 7 Mawrth. Pa flynyddoedd blodeuodd planhigion yn gynharach?

[Cliciwch yma i weld os ydych yn gywir!](#)


Pam blodeuodd ein planhigion yn cynharach eleni?

- Cafodd 2024 y tymheredd pumed uchaf, glawiad trydydd uchaf ac oriau o haul isaf o ein hymchwiliad. Mae'n bosib wnaeth tymereddau uchel effeithio a'r dyddiad blodeuo ein planhigion.
- Mae'r data yn dangos cydberthynas rhwng tymheredd, oriau o olau haul a dyddiadau blodeuo ein bylbiau.
- Mae dyddiadau blodeuo ein planhigion yn dibynnu ar sawl elfen. Mae'n bwysig edrych ar dymereddau, glawiad a heulwen, a hefyd i ystyried sut mae'r rhain yn newid dros y cyfnod y mae ein planhigion yn tyfu.






**Sut mae'r tywydd yn effeithio ar amseroedd
blodeuo cennin Pedr?**




Mae'r siart bar yn dangos gwelodd 2024 dyddiad blodeuo cynharach na'r cyfartalog ar gyfer y cennin Pedr o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Cymharu dyddiad blodeuo'r cennin Pedr gyda thymhereddau cyfartalog
Comparing daffodil flowering with average spring temperatures



Mae'r siart hon yn dangos effaith y tymheredd ar ddyddiadau blodeuo'r cennin Pedr. Mae uchder y llinell las yn dynodi'r tymheredd a'r lleoliad ar y graff yn dynodi dyddiad blodeuo cyfartalog y flwyddyn. Mae'r llinell ddu yn dynodi'r tuedd, sef y patrwm yr ydym yn disgwyl ei weld o'r canlyniadau.

Cymharu dyddiad blodeuo'r cennin Pedr gyda thymhereddau cyfartalog
Comparing daffodil flowering with average spring temperatures




Mae'r tuedd yn dangos: Wrth i'r tymheredd ostwng mae'r cennin Pedr yn hwyrach yn blodeuo, ond mae yna rai eithriadau. Allwch chi eu gweld?

Mae'r llinell ddu yn rhoi syniad o'r patrwm yr ydym yn disgwyl ei weld. Nid oes rhaid i flwyddyn gyfarfod y llinell yn union i gyd-fynd a'r patrwm.




C: Pa
flynyddoedd
sydd ddim yn
ffitio?

A: 2016,
2020, 2021 a
2023



Byddem wedi disgwyl i'r cennin Pedr flodeuo yn gynharach nag y gwnaethant yn 2016 a 2023. Ond, gwelodd 2016 dymheredd is na'r cyfartaledd ar gyfer mis Chwefror a Mawrth a welodd 2023 dymheredd is na'r cyfartaledd ar gyfer mis Rhagfyr. Blodeuodd ein planhigion yn gynharach na'r disgwyl yn 2020 a 2021. Gwelodd 2020 tymhereddau uchaf ein project ar gyfer mis Ionawr a gwelodd 2021 tymheredd uwch na'r cyfartaledd ar gyfer mis Mawrth.



Mae'r patrwm yn dangos: Wrth i'r oriau o olau haul leihau mae cennin Pedr yn agor yn hwyrach, ond ceir rhai eithriadau. Allwch chi eu gweld?


Dim ond arwydd o'r patrwm y byddem yn disgwyl ei weld yw'r llinell ddu.

Does dim rhaid i'r flwyddyn gwrdd â'r llinell hon yn union i gyd-fynd â'r tuedd.



C: Pa
flynyddoedd
sydd ddim yn
fffitio?


A: 2020,
2021 a 2024




Byddem wedi disgwyl i blanhigion flodeuo'n hwyrach yn 2020, 2021 a 2024. Ond, cafodd 2020 y mis Ionawr cynhesaf ein project, cafodd 2024 y mis Chwefror cynhesaf ein project ac yn 2021 wnaeth tymheredd ac oriau o haul cynyddu'n sydyn am fis Chwefror a mis Mawrth.




**Sut mae'r tywydd yn
effeithio ar amseroedd
blodeuo'r crocysau?**



Gallwn weld o'r siart bar bod planhigion crocws wedi blodeuo yn gynharach yn 2019 a hwyrach yn 2013. Gwelodd 2024 ddyddiad blodeuo cyfartaledd ar gyfer y crocws.




Mae'r tuedd yn dangos: Yn gyffredinol, wrth i'r tymheredd ostwng, mae'r crocws yn hwyrach yn agor, ond mae rhai eithriadau. Allwch chi eu gweld?




C: Pa
flynyddoedd
sydd ddim
yn ffitio?

A: 2016,
2018 a 2024




Efallai y byddem wedi disgwyl i blanhigion flodeuo yn gynharach yn 2016 a 2024. Ond, gwelodd 2016 gostyngiad sydyn yn y tymheredd ym mis Chwefror a gwelodd 2024 mis Chwefror oeraf y project. Efallai y byddem wedi disgwyl i blanhigion flodeuo yn ddiweddarach yn 2018. Ond, welodd 2018 yr oriau o heulwen uchaf y project am fis Ionawr. Efallai bod hyn wedi effeithio ar ddyddiadau blodeuo ein planhigion.

Cymharu dyddiad blodeuo'r crocws gydag oriau o haul
Comparing crocus flowering dates with hours of sunshine




Mae'r tuedd yn dangos: Yn gyffredinol, pan fydd llai o haul mae'r crocws yn hwyrach yn agor, ond mae rhai eithriadau. Allwch chi eu gweld?



C: Pa
flynyddoedd
sydd ddim
yn ffitio?

A. 2012 &
2021



Efallai y byddem wedi disgwyl i blanhigion flodeuo yn gynharach yn 2012 oherwydd tymheredd ac oriau o heulwen eithaf uchel. Ond, roedd tymereddau ac oriau o heulwen yn is na'r cyfartaledd ar gyfer mis Chwefror. Efallai y byddem wedi disgwyl i blanhigion flodeuo yn ddiweddarach yn 2021. Ond, welodd tymereddau uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Ionawr a Mawrth. Mae'n debygol bod hyn wedi effeithio ar ddyddiadau blodeuo ein planhigion.

Mae dod o hyd i batrwm yn anodd ond mae rhai pethau yn glir...

- Mae'r bylbiau yn dibynnu ar yr haul a gwres er mwyn blodeuo.
- Mae ein tymhorau yn dod yn fwy anodd eu rhagweld gan fod ein byd yn cynhesu.



Pethau i'w hastudio...

- ▶ Gwnewch siartiau amlder a graffiau i ganfod y cymedrau.
- ▶ Darganfyddwch os wnaeth planhigion blodeuo'n hwyrach mewn ysgolion a gofnododd tywydd oerach.
- ▶ Ddarganfyddwch sut wnaeth tymheredd, heulwen a glaw effeithio ar ddyddiau blodeuo cyfartalog.
- ▶ Chwiliwch am dueddiadau mewn gwahanol lefydd

Gwelwch:

<https://amgueddfa.cymru/bylbiau-gwanwyn/>



Adnoddau Digidol

Ewch i wefan [Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion](#) a gwefan [Ymddiriedolaeth Edina](#) i gael amrywiaeth o adnoddau addysg yn ymwneud â'r project.

Mae gan [Amgueddfa Cymru](#) adnoddau digidol ar gyfer casgliadau eu saith Amgueddfa. Gall ysgolion yng Nghymru ddefnyddio adnoddau ar wefan [Hwb](#).

Mae gan y tudalennau hyn ddolenni i'n cwisiau Kahoot!

Kahoot!

2020 was the fourth coolest year.

23

Tymheredd cymedrig DU y gwanwyn 2012-2020
Average UK spring temperatures 2012 - 2020

Blydyddyn / Year	Tymheredd / Temperature (C)
2012	6.00
2013	3.50
2014	5.50
2015	4.50
2016	6.00
2017	5.50
2018	4.00
2019	6.00
2020	5.00

◆ True

▲ False